Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)

Dydd Mercher, 13eg Fawrth 2019 10:00yb-12:30yp

Tŷ Menai, Parc Menai

COFNODION

PRESENNOL	
ENW	SEFYDLIAD
Ffion Johnstone	Ffion Johnstone
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Euros Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Elizabeth Woodcock	Ymchwilydd Ôl Raddedig
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Richard Fairhead	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Sian Purcell	Medrwn Môn

YN MYNYCHU	
ENW	SEFYDLIAD
Nonn Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Dewi Wyn Jones	Cyngor Gwynedd
Arwel Owen	Cyngor Gwynedd
Arwel Williams	Prifysgol Bangor
Lowri Hughes	Prifysgol Bangor
Sally Baxter	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

YMDDIHEURIADAU

Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Catrin Parry	Gwasanaeth Prawf
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod i ddarparu cyflwyniadau Sally Baxter, Lowri Hughes ac Arwel Williams.

2. Cylch Gorchwyl - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno.

3. Cofnodion i'w cymeradwyo a materion yn codi

Aethpwyd trwy'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf, gan adrodd ar y camau gweithredu.

1. Cylchredeg y penderfyniadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Tân gan nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod - Cylchredeg y penderfyniadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Tân- **Wedi gweithredu**
2. NH i baratoi papur sy'n amlinellu'r adnoddau a ragwelir sydd eu hangen i gyflawni gwaith yr is-grwpiau, ynghyd ag opsiynau cyd-ariannu'r adnoddau.- **Wedi gweithredu**

4. Cyflwyniad ar y Cynllun Arfer gan Brifysgol Bangor

Cafwyd cyflwyniad gan Arwel Williams a Lowri Hughes ar y cynllun ARfer, sy'n cyd-fynd ag un o flaenoriaethau cynllun gweithredu'r Is-grŵp Iaith. Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i sylw aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod.

Gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau ar y cynllun:

Roedd cefnogaeth i'r cynllun Arfer gan aelodau' Bwrdd. Cytunwyd bod y prosiect yn ddull effeithiol o gasglu data.

Gwnaethpwyd y sylw bod angen i'r cyrff cyhoeddus ystyried sicrhau bod pob swydd o fewn sefydliadau yn cyfarch gofynion Ieithyddol yn y Gymraeg, pan yn briodol.

Cafwyd cydnabyddiaeth ei bod hi'n her newid ymddygiad a'r arferiad o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr sydd yn arfer cyfathrebu gyda'i gilydd yn y Saesneg. Roedd y cyflwyniad ARfer wedi gwneud i rai aelodau'r Bwrdd feddwl yn wahanol am eu dewis Iaith mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Holwyd os oedd ymddygiad y staff oedd yn rhan o'r arbrawf yn newid o ganlyniad i'r ffaith bod rhywun yn bresennol yn eu harsylwi, a bod hyn yn gallu dylanwadu ar y data. Nodwyd bod y staff yn arfer gyda'r presenoldeb ar ôl amser. Roedd y staff a gymrodd rhan yn yr arbrawf yn deall beth oedd y dyhead a'r ymrwymiad.

Holwyd am gynaladwyedd y rhaglen. Mae'r data a gasglwyd ar ddiwedd yr arbrawf yn cael ei ddadansoddi yn bresennol. Wedi dweud hynny mae'r sefyllfa bresennol o ddefnyddiwr yr Iaith yn parhau i fod yn uwch na'r waelodlin.

Nodwyd efallai fod cyfle i Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r prosiect ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Timau Integredig Iechyd a Gofal sydd wedi eu ffurfio yn ddiweddar.

1.	Gweithred:	Copi o'r cyflwyniad i'w gylchredeg at aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod

5. Cyflwyniad ar gynllun 3 blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cafwyd cyflwyniad gan Sally Baxter ar gynllun 3 blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cytunwyd i gylchredeg at aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod.

Gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau ar y cyflwyniad.
Llongyfarchwyd Sally am gyflwyno yn ardderchog yn y Gymraeg.

Gwnaethpwyd y sylw bod angen grymuso staff rheng flaen i wneud penderfyniadau er mwyn parhau a'r gwasanaeth, a holwyd pam nad oedd hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod hyn yn rhan o strategaeth y gweithlu Bwrdd Iechyd a bydd angen ymgysylltu gyda staff ar hyn, gan y bydd yn newid y diwylliant.

Holwyd am yr adnoddau sydd eu hangen i wireddu'r cynlluniau a gyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad ac os oedd modd i sefydliadau eraill gynorthwyo hefo rhai elfennau gwaith. Cyfeiriwyd at y bidiau trawsffurfio ar gyfer yr agweddau iechyd a llesiant.

Cyfeiriwyd at ddogfen Iechyd Cyhoeddus ‘Adeiladu Cymru Iachach’ (sy’n ymateb i’r Ddogfen Cymru Iachach) sy’n rhoi ffocws ar waith ataliol. Holwyd sut oedd y strategaeth 3 blynedd Iechyd yn cyd-fynd â dogfen Iechyd Cyhoeddus. Holwyd am y gwaith ataliol maent yn ymgymryd ag ef, a sut mae’n gweddu hefo’r ddogfen. Cadarnhawyd eu bod yn defnyddio Fframwaith Cymru Iachach ac yn gwella’r cydweithio mewn partneriaeth.

Gwnaethpwyd y sylw bod y gwaith sy’n digwydd yn y maes iechyd a gofal yn gallu ymddangos yn gymhleth ar adegau, o ystyried Cynllun 3 blynedd Iechyd, Cynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a gwaith is grŵp Iechyd a Gofal y BGC. Gofynnwyd a oedd modd cyflwyno papur sy’n amlinellu sut mae’r cynlluniau’n dod ynghyd.

Holwyd os oedd y rhan sy’n cyfeirio at Ddatblygu’r Sefydliad yn y cynllun 3 blynedd yn gyfeiriad at rymuso staff. Cadarnhawyd y bydd rhaid ymgynghori gyda staff ar yr elfen datblygu’r sefydliad gan ddisgwylir gweld newid yn y diwylliant. Gall y Bwrdd Iechyd adrodd yn ôl ar hyn i’r BGC.

Gofynnwyd a oedd modd addasu’r geiriad ‘canoli gwasanaethau’ wrth gyfeirio at Ysbyty Glan Clwyd. Nodwyd mai canol o safbwynt trwch y boblogaeth ydyw. Adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd y bydd gwaith mapio manwl wedi ei gynnal cyn penderfynu ar leoliad i ganoli gwasanaethau, gan roddi ystyriaeth i nifer y defnyddwyr a lle mae’r galw, a materion trafnidiaeth.

2.	Gweithred:	Copi o’r cyflwyniad i’w gylchredeg at aelodau’r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod
3.		Ffion Johnstone ar ran yr is-grwp iechyd a gofal i gyflwyno papur i’r BGC sy’n amlinellu’r berthynas rhwng cynllun 3 blynedd Iechyd, Cynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a chynlluniau gwaith yr is-grŵp Iechyd a Gofal.

6. Adroddiad ar gynnydd yr is-grwpiau

Amcan 1 - Cymunedau sy’n ffynnu ac yn llewyrchus i’r hirdymor -

6.a. Yr Is-grŵp Cartrefi

Yn absenoldeb Ffrancon, cafwyd diweddariad gan Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai a Llesiant, Cyngor Gwynedd).

Cynhaliwyd gweithdy gan yr Is-grŵp Cartrefi ar ddydd Llun 11eg Fawrth i ystyried gwahanol fodelau o dai arloesol. Cafwyd crynodeb o’r gweithdy. Roedd cynrychiolaeth yn y gweithdy o’r cymdeithasau tai a’r Awdurdodau Lleol.

Cytunwyd yn y gweithdy bod angen rhoddi sylw i :

1. Datblygu modelau carbon isel, effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd
2. Defnyddio cyflenwyr lleol
3. Adnabod cyfleodd a budd economaidd

Cytunwyd ar y rhestr fer ganlynol o fodel tai arloesol sydd angen sylw pellach:

1. Tai modiwlaidd eu dull, ffrâm bren
2. Beattie Passive (Cynllun arloesol yng Nghaergybi)
3. Dulliau tai gwahanol ar gyfer datblygu ar safleoedd sy'n profi'n anodd ar hyn o bryd

Nodwyd heriau presennol y grŵp sef pwrcasu a dod a'r cynllun ynghyd i gynnwys Cymdeithasau Tai a Chynghorau. Nodwyd bod cais am adnodd rheoli prosiect i'w ystyried fel rhan o'r eitem am adnoddau ar yr agenda.

Cyfeiriwyd at gam nesaf yr is-grŵp sef adnabod a gwerthuso safleoedd. Nodwyd mai'r bwriad oedd cydweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid y BGC ar y weithred hon.

Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau:

Holwyd os oedd yr is-grŵp wedi rhoi ystyriaeth i'r anghenion tai yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Awgrymwyd bod angen trafodaeth ar hyn yn ystod cyfarfod y Bwrdd nesaf. Yn ogystal holwyd am bwy sydd wedi eu cynnwys yn y bartneriaeth o safbwynt ariannu'r cynllun a'r. Cymdeithasau Tai eraill.

Yn ogystal holwyd am y gwerthusiad safleoedd a'r gwaith sydd wedi ei gwblhau hyd yma. Cadarnhawyd mai ystyried y safleoedd sydd â photensial yn unig a dim gweithred bellach.

Awgrymwyd bod angen i'r is-grŵp roddi ystyriaeth i'w aelodaeth a chynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ogystal cytunwyd ar y gweithredoedd canlynol:

- Cadarnhau beth yw Amcanion y prosiect
- Darparu fwy o fanylder ar drywydd y prosiect
- Sicrhau fod y gwaith prosiect yn ymateb i'r flaenoriaeth o fewn y Cynllun Llesiant.

Roedd cytundeb mewn egwyddor i'r hyn a gyflwynwyd gan yr is-grŵp ond gofynnwyd iddynt ystyried sut mae'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y ddau Gyngor.

4.	Gweithred:	Yr is-grŵp i ystyried y gweithredoedd uchod ac felly sicrhau bod amcanion a thrywydd y prosiect yn glir erbyn y cyfarfod ym mis Mehefin 2019.

6.b Is-grŵp yr Iaith Gymraeg

Aethpwyd trwy'r adroddiad cynnydd yn unol â 3 is-themau o'r cynllun gweithredu:

1. Rhannu Arfer Dda - Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth yn flaenorol am y Cynllun Arfer

2. Profiad y Dinesydd. - Edrych ar newidiadau syml y gellir eu gweithredu ar draws y sefydliadau i wneud y cynnig iaith yn fwy gweledol, ac er mwyn annog cychwyn y sgwrs yn Gymraeg." Gofynnodd y Bwrdd i'r is-grŵp fapio'n fanwl yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ym mhob sefydliad sy'n aelod o'r bwrdd, h.y. pa fath o ddulliau sy'n cael eu defnyddio (y bathodyn oren, posteri mewn derbynfeydd), er mwyn sefydlu gwaelodlin, cyn ystyried y camau gweithredu.

3. Iaith a Thaith Plentyn a'r rhwystrau a wynebir rhag dal eu gafael ar yr Iaith Gymraeg. Awgrymwyd i'r is-grŵp beidio â disodli'r gwaith sydd eisoes wedi eu gwneud ar y Siarter Iaith, ond yn hytrach adeiladu arno. Nodwyd yr angen i gydweithio gyda swyddogion o GWE. Cadarnhaodd Jerry Hunter ei fod bellach yn mynychu cyfarfodydd strategol GWE.

   Gofynnwyd i'r is-grŵp fapio lle mae'r holl sefydliadau arni mewn perthynas a gallu'r rheng flaen i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i'r Bwrdd ystyried sut y gallwn adeiladu arno.

   Gofynnwyd i gywiro pennawd yr is-themau 3 sef y geiriad dal eu gafael ar yr Iaith gan fod yr ysgolion yn datblygu Siaradwyr Cymraeg. Mae GWE yn gwneud gwaith yn y maes yn barod. Cadarnhawyd bod Polisi Iaith Ysgolion hefyd yn gadarn. Adroddwyd bod gwaith yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen i hyrwyddo'r Iaith, ond cydnabuwyd bod rhai bylchau yn parhau.

5.	Gweithred:	Yr is-grŵp i ystyried y gwaith sy'n digwydd yn y maes yn barod, ac adnabod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith yma.

6.c Yr is-grŵp Newid Hinsawdd

Yn absenoldeb Sian Williams, arweinydd yr is-grwp cafwyd diweddariad ar gynnydd gan Nia Williams ac Euros Jones.

Nodwyd bod yr is-grŵp yn cynnwys tua 30 o aelodau a bod brwdfrydedd amlwg ymysg yr aelodau i gyfrannu at waith yr is-grŵp. Adroddwyd bod nifer o gyrff cyhoeddus wedi cysylltu gyda Nia Williams i fynegi eu bod yn gweithredu yn y maes newid hinsawdd, o ganlyniad bydd gwaith mapio pellach yn cael ei gynnal. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu holiadur google i'w rhannu gydag aelodau'r Is-grŵp yn y lle cyntaf. Bydd yr holiadur yn gam cychwynnol ar gyfer cwmpasu'r gwaith ac adnabod yr arfer da ar Newid Hinsawdd sydd mewn bodolaeth yn barod. Cydnabuwyd bod nifer o sefydliadau yn cynllunio a gweithredu ar faterion Newid Hinsawdd. Bydd hyn yn gyfle i'r is- grŵp ddatblygu dealltwriaeth lawn o'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y maes.
Bydd yr holiadur yn gam cychwynnol felly ar gyfer mapio'r gwaith sydd mewn bodolaeth yn barod, a chaniatáu i'r grŵp nodi'r bylchau.

Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau

Awgrymwyd i'r grŵp osgoi dyblygu gwaith ac ystyried y gwaith sydd eisoes wedi ei gwblhau megis y Cynllun Rheoli Traethlin, ac yna ystyried y bylchau yn ein data, dealltwriaeth a gweithredoedd. Gofynnwyd yn ogystal i'r is-grŵp ystyried sut mae eu canfyddiadau yn effeithio ein cymunedau.

Gofynnwyd am gadarnhad o'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol gan y BGC- ai'r ffocws ar yr arfordirol, ynteu gynnwys cynlluniau ar gyfer ardaloedd mewndirol yn ogystal. Cyfeiriwyd at arfer da sydd eisoes yn digwydd yn y maes newid hinsawdd gan y 2 Gyngor.

6.	Gweithred:	Yr is-grŵp i roddi ystyriaeth i'r gwaith a gwblhawyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Traethlin, ac i gadarnhau amcanion yr is-grŵp.

Amcan 2 - Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

6.ch Is-grŵp Iechyd a Gofal Integredig

Cafwyd cyflwyniad gan Ffion Johnstone ar gynnydd yr is-grŵp Iechyd a Gofal. Aethpwyd trwy'r papurau a gyflynwyd a oedd yn amlinellu'r dewisiadau o ran trefniadau llywodraethu effeithiol yn lleol ar gyfer Gwynedd a Môn o ran y newidiadau trawsnewid sydd eu hangen mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae wedi'i seilio ar drafodaethau sydd wedi digwydd yn rhanbarthol yng Ngrŵp Arwain Gogledd Cymru ac yn lleol mewn gweithdy'n cynnwys grŵp integredig iechyd a gofal (Môn a Gwynedd). Y nod yw ceisio tacluso'r trefniadau er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethu o ran trawsnewid sydd wedi'u pennu yn ymateb Gogledd Cymru i ddogfen Cymru Iachach.

Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau:

Mynegwyd bod cynnydd yn digwydd yn y maes ond ei fod yn gallu ymddangos yn gymhleth . Gofynnwyd i'r is-grŵp gyflwyno papur ar gyfer y cyfarfod nesaf sy'n amlinellu:

- Beth yw'r broblem sydd gennym yn bresennol
- Pam mae hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn
- Beth yw'r camau gweithredu rydym yn eu defnyddio i ymdrin â'r mater
- Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo

Holwyd am y bidiau trawsffurfio a sut gyfrannodd yr is-grŵp Iechyd a Gofal at y cynlluniau. Eglurwyd bod yr is-grwp yn ystyried sut y gallwn weithredu'r newidiadau'n lleol.

Cyfeiriwyd at gynnydd y Grŵp Integredig Plant. Mae'r grŵp yn cymryd i ystyriaeth asesiad strategol rhanbarthol, blaenoriaethau llesiant lleol ac yn ymgymryd â'r elfen leol o'r bidiau trawsffurfio. Siobhan Adams sy'n cadeirio'r cyfarfod.

Cydnabuwyd bod cyfle gan y BGC i ddylanwadu'n sylweddol ar Amcan 2, trwy gryfhau'r cydweithio yn y sector iechyd a gofal.

Cyfeiriwyd at ddogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Adeiladu Cymru Iachach'. Nodwyd bod yr egwyddorion a'r blaenoriaethau'n synhwyrol –ond mae'r ddogfen yn awgrymu ei fod wedi ei gynnal ar ran yr Awdurdodau Lleol, yn hytrach nag mewn cydweithrediad gyda hwy.

Gofynnwyd i'r is-grwp roddi ystyriaeth ac amlygu'r hyn y gallwn wneud yn lleol, yng nghymunedau Gwynedd ac Ynys Môn i ddylanwadu ar Amcan 2.

7.	Gweithred:	Yr is-grŵp i ystyried defnyddio'r cwestiynau uchod i'w cynorthwyo hefo datblygu'r cynllun gweithredu.

7. Papur opsiynau ar gyfer yr Is-grŵp Tlodi

Cafwyd cyflwyniad ar yr opsiynau arfaethedig ar gyfer yr is-grŵp tlodi. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol: NH i gyfarfod hefo'r 2 Gyngor. Y bwriad yw datblygu dealltwriaeth o'r gwaith sy'n / bwriadu digwydd yn y maes tlodi gan y 2 Gyngor.

Bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r BGC ym mis Mehefin, a bydd gofyn i'r aelodau adnabod lle gallwn ychwanegu gwerth i'r gwaith sy'n digwydd yn y maes.

Iechyd Cyhoeddus i barhau i gefnogi'r teclyn Asesiad Effaith.

8.	Gweithred:	NH i drefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i drafod eu cynlluniau gwaith yn y maes tlodi a threfnu iddynt ddarparu cyflwyniad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 12fed Fehefin.

8. Papur ar adnoddau'r BGC

Cyfeiriwyd at £83k o'r grant rhanbarthol a'r bwriad o'i ddefnyddio i gomisiynu gwaith a gwella'r ddealltwriaeth yn y meysydd- tlodi, cydraddoldeb, newid hinsawdd a chludiant.

Adroddwyd nad oes gan y BGC adnoddau penodol i ddefnydd cefnogi gwaith yr is-grwpiau. Gofynnwyd i'r is-grwpiau ystyried y meini prawf canlynol wrth iddynt gynnal trafodaethau o fewn yr is-grwpiau am adnoddau:

1. Os oes sefydliad sy'n rhan o'r grŵp yn / bwriadu cynnal gwaith yn y maes. Yna ystyried sut mae'r sefydliad yn gallu cynorthwyo hefo'r opsiynau ariannu.

2. Os yw'r gwaith eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaid eraill. Sut mae gwaith arfaethedig yr is-grŵp yn ychwanegu at y gwaith yma / oes modd rhannu'r gwaith?

3. Os nad yw'r 2 cam gweithredu uchod yn berthnasol awgrymir i'r is-grwpiau ddatblygu cynllun Busnes i'w gyflwyno i'r BGC. Cadarnhawyd nad yw'r Bwrdd eisiau gweld oediad i waith yr is-grwpiau, nac y chwaith eisiau i ddiffyg adnoddau eu rhwystro rhag gwneud cynnydd. Bydd yr achos busnes yn amlinellu sut mae'r gwaith yn ychwanegu gwerth, yn cynnig tystiolaeth am yr angen dros y prosiect, a pha wasanaethau fydd yn gysylltiedig â'r prosiect.

9. Adroddiad Blynyddol

Adroddwyd y bydd adroddiad blynyddol draft i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mehefin.

10. Gohebiaeth

Aethpwyd drwy'r eitemau a gylchredwyd fel gohebiaeth i'r Bwrdd.

11. Heriau a Chyfleon - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

12. Ethol Cadeirydd

Cadarnhaodd Ffion Johnstone ei bod yn dymuno terfynu ei chyfnod fel cadeirydd. Cafwyd trafodaeth am hyn, ond nid chadarnhawyd olynydd. Bydd Ffion Johnstone yn parhau yn ei rôl tan fydd olynydd.

13. Cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf

12fed Fehefin 2019, 10yb-12yp

Tŷ Coch, Parc Menai.